Hysbysiad Preifatrwydd

Hydref 2021

Yn ColegauCymru, rydym wedi ymrwymo i roi dewis i chi ac mae rheoli a diogelu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu â ni yn rhan o'n cynnig.

Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), mae rheoli eich gwybodaeth bersonol a'i chadw'n ddiogel yn hynod bwysig i ni. Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd yn manylu ar sut rydyn ni'n defnyddio'ch data.

Data Gweithwyr, Ymgeiswyr Swyddi, Contractwyr ac Ymddiriedolwyr

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i ddeall sut mae ColegauCymru ("Yr Elusen", "ni") yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu gyda ni. Gyda'i gilydd, disodlodd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data (2018) Ddeddf Diogelu Data 1998 ar 25 Mai 2018. Rydym yn darparu'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth hon.

Pwy yw'r Rheolwr Data?

Rheolwr Data'r wybodaeth a gasglwn amdanoch chi yw ColegauCymru, Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB. Dylid anfon ymholiadau at DPO@colegaucymru.ac.uk.

Pam ydyn ni'n casglu'ch data a'r sail cyfreithiol dros wneud hynny?

Mae'r data a gasglwyd gennym yn ymwneud â'n gweithwyr ac yn ein galluogi i weinyddu a rheoli'r contract cyflogaeth. Dywed y Gyfraith mai dim ond os oes sail gyfreithiol i wneud hynny y gallwn gasglu neu brosesu eich data. Mae'r seiliau cyfreithiol yr ydym yn prosesu pob math o ddata personol arnynt yn cynnwys:

- cyflawni contract sydd gennym gyda chi
- pan fydd gennym rwymedigaeth gyfreithiol
- lle y mae er budd y cyhoedd
- lle rydych wedi rhoi eich caniatâd

Mae yna ddarpariaethau ychwanegol yn y ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi i brosesu data personol a elwir yn ddata personol categori arbennig. Mae hyn yn cynnwys eich tarddiad hiliol neu ethnig, eich barn wleidyddol, eich credoau crefyddol neu athronyddol, eich aelodaeth i undebau llafur, eich data genetig neu fiometreg, eich iechyd, eich cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw euogfarnau a throseddau troseddol.

Beth yw'r rhesymau dros brosesu fy ngwybodaeth?

- Sicrhau talu cyflog
- Sicrhau talu cyfraniadau pensiwn
- Sicrhau bod didyniadau treth yn cael eu gwneud
- Darparu gwybodaeth ar gyfer teithiau gwaith ac ymweliadau

- Rhwymedigaethau cytundebol
- Sicrhau cefnogaeth dechnegol i systemau TG yr Elusen a chefnogaeth TG ar gyfer cyfrifiaduron personol a gliniaduron
- Darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol/gwasanaethau cwnsela
- Cefnogi iechyd, diogelwch a lles staff
- At ddibenion yswiriant
- Defnyddio delweddau mewn deunydd hyrwyddo ar gyfer yr Elusen
- Galluogi staff i gael gafael ar dalebau gofal plant a mynediad i wasanaethau fel y rhaglen Beicio i'r Gwaith
- Sicrhau urddas yn y gweithle, tegwch a chydraddoldeb
- Cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth ac amddiffyn cymdeithasol
- Sicrhau tâl salwch
- Darparu gwyliau blynyddol
- Rhedeg prosesau recriwtio a hyrwyddo
- Cadw cofnodion cyflogaeth a manylion cyswllt cywir a chyfoes (gan gynnwys manylion am bwy i gysylltu os bydd argyfwng)
- Cadw cofnodion cywir o hawliau cytundebol a statudol gweithwyr
- Cadw cofnod o brosesau disgyblu a chwynion a chadw cofnod o berfformiad gweithwyr a phrosesau cysylltiedig
- Cadw cofnod o absenoldeb a gweithdrefnau rheoli absenoldeb
- Cael mynediad at gyngor iechyd galwedigaethol
- Sicrhau gweinyddiaeth AD a busnes cyffredinol effeithiol
- Darparu tystlythyrau ar gais i weithwyr presennol neu gyn-weithwyr
- Ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn a sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol

Mae gennym hefyd rwymedigaeth gontractiol i rannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon eraill, gan gynnwys HRMC, asiantaethau pensiwn ac awdurdodau lleol. Mae rhestr lawn o'n trydydd partïon a sut rydym yn rhannu eich data i'w gweld yn yr adran nesaf. Mae gan ColegauCymru rwymedigaeth gyfreithiol hefyd i gasglu rhywfaint o'ch data gan gynnwys am resymau iechyd a diogelwch ac ariannol. Mae rhai categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am iechyd neu gyflyrau meddygol, yn cael eu prosesu i gyflawni rhwymedigaethau cyfraith cyflogaeth (fel y rhai mewn perthynas â gweithwyr ag anableddau). Rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred, at ddibenion monitro cyfle cyfartal. Efallai y byddwn hefyd yn monitro e-byst neu ddefnydd o'r rhyngrwyd fel y nodir yn ein Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth.

Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu?

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt (gan gynnwys e-bost a rhif ffôn), dyddiad geni a rhyw.
- Telerau ac amodau eich cyflogaeth.
- Manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth.

- Gwybodaeth am eich tâl, gan gynnwys hawliau i fudd-daliadau fel lwfans ceisio gwaith, pensiynau neu yswiriant
- Manylion eich cyfrif banc a'ch rhif yswiriant gwladol
- Gwybodaeth am eich statws priodasol, perthynas agosaf, dibynyddion a chysylltiadau argyfwng
- Gwybodaeth am eich cenedligrwydd a'ch hawl i astudio/gweithio yn y DU
- Gwybodaeth am eich cofnod troseddol ac euogfarnau heb eu gwario
- Manylion eich amserlen (diwrnodau gwaith ac oriau gwaith) a'ch presenoldeb yn y gwaith
- Manylion y cyfnodau o wyliau a gymerwyd gennych, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb salwch, absenoldeb teuluol a chyfnodau sabothol, a'r rhesymau dros yr absenoldeb
- Manylion unrhyw weithdrefnau disgyblu neu gwyno y buoch yn rhan ohonynt, gan gynnwys unrhyw rybuddion a roddwyd i chi a gohebiaeth gysylltiedig
- Asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, adolygiadau perfformiad a graddfeydd, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiedig
- Gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys a oes gennych anabledd y mae angen i'r Elusen wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer
- Cyfle cyfartal yn monitro gwybodaeth gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred

Mae aelodau o'r tîm AD a rheolwyr hefyd yn aml yn dysgu gwybodaeth bersonol am eu gweithwyr wrth ddelio â materion cyflogaeth. Gall hyn gynnwys salwch, cefndir crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, sefyllfaoedd teuluol. Yr ydym yn sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth o'r natur hon yr ydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol ac yr ydych chi'n ei rhannu â'ch rheolwr a'ch AD yn cael ei thrin gyda'r sensitifrwydd mwyaf.

O ble rydyn ni'n casglu'ch data?

Rydym yn casglu eich gwybodaeth o amrywiol ffynonellau gan gynnwys:

- Yn uniongyrchol gennych chi
- Eich cyflogwr blaenorol
- Yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau (DWP), Cyllid a Thollau EM (HMRC) ac asiantaethau pensiwn
- Gwybodaeth a gynhyrchwn wrth ystyried eich cais am gyflogaeth a chan ganolwyr
- Gwybodaeth rydyn ni'n ei chynhyrchu tra'ch bod chi'n cael eich cyflogi gennym ni. Gellir cynhyrchu hyn yn ganolog o fewn AD neu gall hyn gael ei gynhyrchu gan eich rheolwyr neu'ch cydweithwyr
- Gwasanaethau cymdeithasol/cyngor bwrdeistref sirol leol
- Eich cyfeiriad IP trwy gydsyniad cwci ar ein gwefan
- Darparwyr gwirio cefndir cyflogaeth
- Gwybodaeth gan asiantaethau cyfeirio credyd
- Gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol a ganiateir gan y gyfraith
- Lluniau teledu cylch cyfyng o gamerâu ar y safle gwaith a ddarperir er gyfer eich diogelwch
- Ffotograffau o ddigwyddiadau
- Gwasanaethau iechyd/cwnsela galwedigaethol

Hyd y cadw

Yn gyffredinol, rydym yn cadw gwybodaeth gyflogaeth berthnasol am 6 blynedd neu fwy os yw'n ofynnol gan unrhyw weithdrefn weinyddol neu gyfreithiol. Yn achos ymgeiswyr am swyddi, cedwir y wybodaeth am ddim mwy na deuddeg mis ers dyddiad y cais.

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu'ch data?

Os ydych chi mewn rôl sy'n wynebu allanol, gellir rhannu gwybodaeth amdanoch chi gydag unrhyw drydydd partïon yr ydym yn gweithio gyda nhw neu y mae gennym berthynas â nhw. Bydd hyn yn gyfyngedig i wybodaeth a gwybodaeth gysylltiedig â gwaith amdanoch sy'n disgrifio'ch swydd broffesiynol. Fodd bynnag, mae angen i'r Elusen brosesu gwybodaeth breifat amdanoch chi i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan eich contract cyflogaeth. Er enghraifft, bydd ColegauCymru yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r asiantaeth bensiwn i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn gywir.

Mae'r Elusen yn partneru â thrydydd partïon yr ydym yn rhannu data â nhw. Nid ydym yn defnyddio unrhyw drydydd parti y tu allan i'r UE ac mae'r holl storio data hefyd yn cael ei gadw yn yr UE.

Sut ydyn ni'n amddiffyn eich data?

Mae'r Elusen yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i geisio sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu ar ddamwain, ac nad yw'n cael ei gyrchu ac eithrio gan ei weithwyr wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Dim ond er mwyn cyflawni eu dyletswyddau rheoli llinell neu i ddarparu'r offer sydd eu hangen arnoch er mwyn cyflawni eich contract y byddwn yn rhannu gwybodaeth yn fewnol â staff sydd angen y wybodaeth hon.

Bydd data categori arbennig a sensitif a ddarperir i'r Elusen yn cael ei storio'n ddiogel gyda mynediad cyfyngedig i'r tîm AD ac weithiau aelodau eraill o staff sydd angen y wybodaeth i ddarparu cefnogaeth ac offer i chi. Pan fydd yr Elusen yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ein rhan, rydym yn gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig, o dan ddyletswydd cyfrinachedd ac mae'n ofynnol i ni weithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau diogelwch data.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych nifer o hawliau o dan y GDPR. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i geisio cywiro neu ddileu eich data personol neu i gyfyngu ac i wrthwynebu prosesu eich data personol. Mae gennych hawl hefyd i gael copi o'r data a gedwir amdanoch chi, ac i gludadwyedd data. Lle rydym yn prosesu eich data, yn seiliedig ar eich caniatâd, mae gennych hefyd hawl i dynnu'ch caniatâd i rannu data gyda ni ar unrhyw adeg.

Mae gan yr Elusen hawl i gadw data yr ydym yn prosesu ar sail gyfreithiol arall er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau statudol a chytundebol a amlinellir uchod.

Gellir gwneud ceisiadau o'r natur hon mewn dwy ffordd:

1. E-bostiwch DPO@colegaucymru.ac.uk.
2. Trwy lenwi ffurflen gais mynediad pwnc sydd ar gael ar dudalen preifatrwydd y wefan a'i phostio i: ColegauCymru, Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB.

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi delio â'ch data yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn neu os bydd unrhyw gŵyn arall, gallwch anfon eich pryderon at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Yr ICO).

Gellir diweddaru newidiadau i'r ffordd yr ydym yn prosesu'ch data ac i'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynghylch y polisi, cysylltwch DPO@colegaucymru.ac.uk.